

Rhestr o'r Termau

Cyffredinol

Term	Diffiniad
Blaenoriaeth	Un o'r camau gweithredu mewn rhaglen weithredol sy'n cynnwys grŵp o weithrediadau sy'n gysylltiedig ac sydd â nodau mesuradwy penodol. Gall Blaenoriaeth ymdrin ag un neu ragor o Amcanion Penodol.
Amcan Penodol	Y canlyniad y mae blaenoriaeth buddsoddi neu flaenoriaeth yr Undeb yn cyfrannu ato mewn cyd-destun cenedlaethol neu ranbarthol penodol trwy gamau gweithredu neu fesurau a wneir o fewn y fath flaenoriaeth.
Gweithrediadau	Cyfrif o'r Gweithrediadau a gymeradwywyd ar lefelau Rhaglen, Blaenoriaeth ac Amcan Penodol. Diffinnir gweithrediad fel prosiect, contract, gweithredu neu grŵp o brosiectau a ddewisir gan awdurdodau rheoli'r rhaglenni dan sylw, neu o dan eu cyfrifoldeb, sy'n cyfrannu at amcanion blaenoriaeth neu flaenoriaethau; yng nghyd-destun offerynnau ariannol, mae gweithrediad yn cynnwys cyfraniadau ariannol o raglen i offerynnau ariannol a'r cymorth ariannol dilynol a ddarperir gan yr offerynnau ariannol hynny.

Ariannol

Term	Diffiniad
Dyraniad	Y swm o arian sydd ar gael o dan y Rhaglen, Blaenoriaeth neu Amcan Penodol y gellir ei ddyfarnu i Weithrediadau.
Wedi'i neilltuo	Y swm o arian a gontactiwyd i Weithrediadau a gymeradwywyd o dan y Rhaglen, Blaenoriaeth neu Amcan Penodol am gyfnod y Gweithrediad hwnnw.
Gwariant	Y cyllid a dalwyd hyd yma i Weithrediadau a gymeradwywyd gan WEFO.

Dangosydd

Term	Diffiniad
Allbynnau*	Mae dangosyddion allbwn yn ymwneud â gweithrediadau a gefnogir. Ystyrir allbwn fel beth sy'n cael ei gynhyrchu / ei gyflenwi'n uniongyrchol trwy weithrediad, wedi'i fesur mewn unedau corfforol neu ariannol. Caiff allbynnau eu mesur ar lefel y bobl a gefnogir, endidau a gefnogir, nwyddau a ddarperir neu wasanaethau a ddarperir.
Targed	Y lefel cyflawni a gytunwyd ar gyfer dangosyddion allbwn fel y nodir yn y Rhaglenni Gweithredol
Rhagolwg y Prosiect	Targed wedi'i osod yn erbyn y dangosyddion allbwn ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy i'w cyflawni trwy gwblhau'r

Term	Diffiniad
	Gweithrediadau hynny.
Cyflawnwyd hyd yma	Y gwerth a adroddwyd yn erbyn dangosyddion allbwn trwy Weithrediadau cymeradwy erbyn pwynt penodol yn oes y Gweithrediadau. Mae'r pwynt hwn mewn amser yn amrywio ar gyfer pob Gweithrediad ac mae'n ymwneud â chyfnod amser y cais awdurdodedig mwyaf diweddar.

* Gellir dod o hyd i ddiffiniadau o bob allbwn yma <https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/monitoring/erdf-indicators/?skip=1&lang=cy>, ar gyfer ERDF ac yma <https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/monitoring/esf-indicators/?skip=1&lang=cy> ar gyfer ESF.